Polisi Absenoldeb Rhiant a Rennir Ysgol

Ysgol	Cybi
Dyddiad cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi gan y Corff Llywodraethu	30/09/26
Amlder Adolygu	3 mlynedd
Dyddiad Adolygiad Nesaf	30/09/29
Pennaeth	Rhian Grieves
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Colin Bell

Paratowyd gan Adnoddau Dynol, Gwasanaeth Trawsnewid: Rhagfyr 2018

Adolygwyd: Mawrth 2023

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Gofynion cymhwystra
3. Prawf cyflogaeth ac enillion
4. Gofynion hysbysu
5. Cyfanswm ac amseru absenoldeb RhAR
6. Amrywio cyfnod o absenoldeb
7. Hawl i dâl RhAR
8. Cadarnhau absenoldeb a thâl RhAR
9. Diwrnodau cadw mewn cyswllt
10. Telerau ac amodau yn ystod absenoldeb RhAR
11. Dychwelyd ar ôl absenoldeb RhAR
12. Hawliadau yn y dyfodol
13. Diogelu data
14. Adolygu polisi

Atodiadau

1. Hysbysiad cwtogi absenoldeb mamolaeth
2. Hysbysiad cwtogi absenoldeb mabwysiadu
3. Hysbysiad o hawliad a bwriad (y fam)
4. Hysbysiad o hawliad a bwriad (partner – mamolaeth)
5. Hysbysiad o hawliad a bwriad (prif fabwysiadwr)
6. Hysbysiad o hawliad a bwriad (partner – mabwysiadu)
7. Hysbysiad cyfnod o absenoldeb/hysbysiad i amrywio cyfnod o absenoldeb

1.Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn gosod hawl statudol gweithwyr i absenoldeb rhiant a rennir (RhAR), ac mae'n cynnig eglurhad am yr hawliadau a'r gweithdrefnau y dylai gweithwyr eu dilyn er mwyn cymryd absenoldeb RhAR.

Gellir cymryd absenoldeb RhAR yn achos y rhan fwyaf o enedigaethau a mabwysiadau. Mae'r polisi hwn yn defnyddio'r gair 'rhiant' i ddisgrifio gweithwyr mewn achosion o enedigaethau a mabwysiadau.

Yn sgil hyblygrwydd y system RhAR, mae'n hanfodol fod gweithwyr yn deall y gofynion gweithdrefnol sydd ynghlwm â chymryd absenoldeb o'r fath.

Prif nodweddion absenoldeb RhAR yw:

- Bydd gweithwyr cymwys yn gallu dod â chyfnod mamolaeth/mabwysiadu i ben yn gynt a rhannu gweddill yr hawliad absenoldeb
- Bydd gweithwyr cymwys yn cael hyblygrwydd penodol er mwyn dewis pa riant fydd yn cymryd absenoldeb a phryd, gan gynnwys bod ar gyfnod o absenoldeb ar yr un pryd
- Yr uchafswm o absenoldeb i'w rannu yw 50 wythnos
- Gellir cymryd absenoldeb mewn blociau o leiafswm o un wythnos
- Gall gweithwyr cymwys wneud hyd at dri chais am absenoldeb, gan gynnwys unrhyw newidiadau i absenoldeb a drefnwyd ymlaen llaw
- Mae cais am gyfnod parhaus o absenoldeb yn sefydlog
- Mae cais am absenoldeb bylchog yn amodol ar gytundeb yr ysgol

2.Gofynion Cymhwystra

Er mwyn cymryd absenoldeb RhAR, mae'n rhaid i'r gweithiwr a'u partner fodloni'r meini prawf cymhwystra canlynol:

- Bod yn fam neu brif fabwysiadwr y plentyn, neu'n bartner i'r fam neu'r prif fabwysiadwr
- Wedi cwblhau 26 wythnos o wasanaeth erbyn y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir yr enedigaeth, neu'r wythnos y cafodd y prif fabwysiadwr wybod ei fod wedi'i baru â phlentyn (gelwir yn 'wythnos berthnasol')
- Bod y partner yn bodloni'r prawf cyflogaeth ac enillion (gweler isod)
- Rhannu'r prif gyfrifoldeb dros y plentyn gydag un rhiant arall ar adeg yr enedigaeth/mabwysiadu
- Wedi gwneud yr hysbysiadau gofynnol mewn perthynas a'u hawliad, ac wedi darparu'r datganiadau a thystiolaeth berthnasol
- Yn gweithio i'r Awdurdod hyd at yr wythnos cyn cymryd unrhyw absenoldeb

3.Prawf Cyflogaeth ac Enillion

Yn ystod y 66 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir yr enedigaeth/wythnos berthnasol, mae'n ofynnol bod eich partner wedi gweithio am 26 wythnos ac wedi ennill o leiaf £30 yr wythnos ar gyfartaledd yn ystod unrhyw 13 wythnos.

4.Gofynion Hysbysu

Hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb a thâl

Mae'n rhaid i'r gweithiwr gwblhau'r ffurflen Hysbysiad Cwtogi a'r ffurflen Hysbysiad o Hawliad neu Fwriad yn llawn er mwyn sicrhau y darperir yr holl wybodaeth berthnasol, o leiaf wyth wythnos cyn cymryd unrhyw absenoldeb (gweler atodiadau).

Hysbysiad Cwtogi

Mae'n rhaid i'r fam/prif fabwysiadwr hysbysu'r ysgol o'u bwriad i gwtogi eu habsenoldeb mamolaeth/mabwysiadu os cymerir absenoldeb RhAR, a hynny drwy ddarparu Hysbysiad Cwtogi a Hysbysiad Hawliad. Bydd yr Hysbysiad Cwtogi yn rhybuddio fod yr absenoldeb yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl, wyth wythnos ymlaen llaw.

Dim ond dan yr amgylchiadau penodol canlynol y gellir ildio hysbysiad cwtogi:

- Canfyddir yn ystod yr wyth wythnos yn dilyn cyflwyno'r hysbysiad nad oes gan y fam/mabwysiadwr na'u partner unrhyw hawl i rannu absenoldeb neu dâl ar y cyd
- Marwolaeth y partner
- Os cyflwynwyd yr hysbysiad cyn yr enedigaeth, ac mae'r fam yn ildio ei hysbysiad cwtogi absenoldeb mamolaeth yn ystod y chwe wythnos yn dilyn yr enedigaeth.
- Rhaid darparu hysbysiad cwtogi i'r Ganolfan Byd Gwaith os nad oes gan y fam/prif fabwysiadwr hawl i dderbyn tâl mamolaeth/mabwysiadu, ond yn hytrach wedi derbyn lwfans mamolaeth/mabwysiadu.

Hysbysiad i gymryd cyfnod o absenoldeb/i amrywio cyfnod o absenoldeb RhAR

Er y bydd mynegiad o ddyddiadau absenoldeb wedi'i ddarparu mewn hysbysiadau blaenorol, nid yw cyfnod o absenoldeb yn sefydlog (oni bai y nodwyd hynny) nes bod Hysbysiad Cyfnod o Absenoldeb wedi'i gyflwyno. Caniateir uchafswm o dri hysbysiad cyfnod absenoldeb, fydd yn cynnwys unrhyw hysbysiadau i addasu cyfnod o absenoldeb sydd eisoes wedi'i drefnu. Mae hysbysiad o gyfnod absenoldeb yn rhoi rhybudd o wyth wythnos i'r ysgol eich bod yn bwriadu cymryd absenoldeb ar y dyddiadau penodol. Dylid darparu'r dyddiad y bydd yr absenoldeb yn dechrau oni bai fod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno cyn genedigaeth plentyn, ac yn yr achos hwn, gellir mynegi'r dyddiad dechrau, er enghraifft, 'pythefnos' ar ôl yr enedigaeth, fydd yn para 'pedair wythnos'.

Dylech hefyd fynegi a ydych yn bwriadu neilltuo Tâl RhAR ar gyfer y cyfnod o absenoldeb yn yr hysbysiad hwn.

Mae'n bwysig fod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei darparu yn unol â'r amserlen osodedig. Os na ddarperir y wybodaeth hon, ni all yr ysgol gadarnhau y cymeradwyir yr absenoldeb.

5.Cyfanswm ac Amseru Absenoldeb RhAR

Ni all rhieni gymryd mwy na 52 wythnos o absenoldeb sy'n cynnwys absenoldeb genedigaeth neu absenoldeb mabwysiadu yn ogystal â absenoldeb RhAR. Rhaid cymryd absenoldeb RhAR o fewn y flwyddyn gyntaf o'r enedigaeth neu'r mabwysiadu.

Ni all mamau rannu eu hawliad absenoldeb mamolaeth mandadol o ddwy wythnos. Mae hwn yn ofyniad statudol sy'n galluogi'r gweithiwr i orffwyso ar ôl yr enedigaeth, a rhaid i'r fam yn unig ei gymryd. I'r gwrthwyneb, gall mabwysiadwyr rannu uchafswm o 50 wythnos o absenoldeb.

Gellir cymryd absenoldeb RhAR mewn blociau hyd at leiafswm o un wythnos.

Gellir cymryd absenoldeb RhAR:

Mewn bloc parhaus – Mae hwn yn gyfnod o absenoldeb di-dor, e.e. am gyfnod o chwe wythnos. Mae gan weithwyr cymwys hawl statudol i gymryd yr absenoldeb yn y modd hwn, ond rhaid derbyn hysbysiad o absenoldeb parhaus. Cadarnheir y cyfnod o absenoldeb yn ysgrifenedig gan y cyflogwr.

Blociau bylchog – Mae hwn yn gyfnod o absenoldeb gydag egwyliau rhwng bob cyfnod, lle mae'r gweithiwr yn dychwelyd i'r gwaith, e.e. 3 wythnos o absenoldeb gan ddilyn gyda 6 wythnos yn y gwaith, ac yna cyfnod arall o absenoldeb.

Gellir cymryd absenoldeb bylchog dim ond gyda chaniatâd yr ysgol, a rhaid i'r gweithiwr trafod cais o'r fath gyda'r Pennaeth cyn pen 14 diwrnod calendr er mwyn penderfynu:

- A ellir caniatáu'r absenoldeb a chymeradwyo'r cais;
- Mae angen cynnig patrwm absenoldeb gwahanol; neu
- Ni ellir caniatáu'r patrwm absenoldeb y gwnaed cais amdano o fewn gofynion yr ysgol, ac ni ellir cytuno arno.

Cadarnheir penderfyniad y Pennaeth yn ysgrifenedig.

Os na ellir dod i benderfyniad cyn pen pythefnos o gyflwyno'r Hysbysiad Cyfnod o Absenoldeb, gall y gweithiwr:

- Gymryd yr absenoldeb y gwnaed cais amdano mewn un bloc parhaus ar y dyddiad dechrau gwreiddiol;
- Cymryd bloc parhaus o absenoldeb gan ddechrau ar ddyddiad newydd, cyn belled a bod y dyddiad dechrau'n hwyrach na'r dyddiad dechrau gwreiddiol, ac y hysbysir yr ysgol o'r dyddiad newydd cyn pen pum diwrnod o'r cyfnod o bythefnos y cyfeiriwyd ato uchod. Os na fydd y gweithiwr yn dewis dyddiad

dechrau cyn pen pum diwrnod o ddiwedd y cyfnod trafod o bythefnos, bydd y cyfnod o absenoldeb parhaus yn dechrau ar ddyddiad y cyfnod absenoldeb y gwnaed cais amdano gyntaf.
- Tynnu'r cais yn ôl ar unrhyw adeg hyd at 15 diwrnod ar ôl ei gyflwyno. Os tynnir y cais yn ôl dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd yn cyfrif fel un o'r tri chais a ganiateir.

6.Amrywio Cyfnod o Absenoldeb

Ar ôl cyflwyno hysbysiad cyfnod o absenoldeb, gallwch newid y dyddiadau y cymerir y cyfnod hwnnw drwy gyflwyno cais i amrywio cyfnod o absenoldeb, gan roi hysbysiad o wyth wythnos. Mae'r hysbysiadau hyn yn amrywio mewn achos o enedigaeth/mabwysiadu buan, a bydd eich cyfnod absenoldeb yn dechrau ar yr un adeg ar ôl yr enedigaeth/lleoliad ag y byddai pe na fyddai'r plentyn wedi'i eni'n fuan/wedi derbyn dyddiad lleoli newydd. Yn yr achos hwn, dylid rhoi hysbysiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Ym mhob achos arall, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Dylid cyflwyno hysbysiad i newid y dyddiad dechrau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl genedigaeth/lleoli'r plentyn.
- Er mwyn newid dyddiad dechrau'r cyfnod absenoldeb, rhaid rhoi wyth wythnos o rybudd wedi'i gyfrifo'n ôl o'r dyddiad dechrau gwreiddiol neu'r dyddiad newydd
- Er mwyn newid hyd cyfnod absenoldeb, rhaid rhoi rhybudd o wyth wythnos cyn y dyddiad dechrau gwreiddiol

Gallwch hefyd ofyn fod cyfnod parhaus o absenoldeb yn cael ei rannu yn gyfnod bylchog, neu i'r gwrthwyneb.

Bydd cyflwyno cais amrywio yn cyfrif tuag at eich uchafswm o dri hysbysiad oni bai y cyflwynir y cais oherwydd bod y plentyn wedi'i eni/wedi'i leoli yn gynt neu'n hwyrach na'r amser disgwyliedig.

7.Hawl i dâl RhAR

Gellir talu Tâl RhAR i'r ddau riant am uchafswm o 37 wythnos. Bydd yn lleihau yn ôl nifer yr wythnosau y derbyniwyd tâl mamolaeth neu fabwysiadu statudol, yn ogystal â 2 wythnos mandadol ar ôl yr enedigaeth/lleoliad.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn Tâl RhAR rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Wedi bod yn gyflogedig yn barhaus am o leiaf 26 wythnos hyd at, a gan gynnwys, yr 'wythnos gymhwyso' (yr 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir yr enedigaeth neu leoliad ar gyfer mabwysiadu).
- Yn derbyn enillion cyffredinol nad ydynt yn llai na'r cyfyngiad enillion isaf a gyfrifir dros yr wyth wythnos yn yr wythnos gymhwyso
- Cydymffurfio â gofynion hysbysu

Telir Tâl RhAR ar y gyfradd sylfaenol isaf neu 90 y cant o enillion wythnosol arferol y gweithiwr.

8.Cadarnhau Absenoldeb a Thâl RhAR

Os gwnaethoch gais am floc parhaus o absenoldeb mewn hysbysiad o gyfnod o absenoldeb, mae gennych hawl i gymryd yr absenoldeb hwn a byddwn yn cadarnhau'r dyddiadau'n ysgrifenedig ar eich cyfer.

Fodd bynnag, os gwnaethoch gais am flociau o absenoldeb bylchog mewn un hysbysiad o gyfnod o absenoldeb, bydd yr ysgol yn penderfynu a ellir hwyluso hyn neu beidio. Bydd y Pennaeth yn trefnu cyfarfod gyda'r gweithiwr i drafod y cais. Bydd canlyniad y cais ymhlith un o'r canlynol:

- Cytuno â'r cais
- Cynnig dyddiadau absenoldeb amgen neu
- Gwrthod y cais

Os na ellir dod i unrhyw gytundeb cyn pen pythefnos o gyflwyno'r hysbysiad am gyfnod o absenoldeb, bydd y ddarpariaeth sylfaenol yn dod i rym, sy'n golygu eich bod yn gallu ildio'r cais ar unrhyw adeg hyd at 15 diwrnod ar ôl ei gyflwyno.
Os na fydd y cais yn cael ei ildio, gallwch gymryd yr absenoldeb mewn un bloc parhaus a fydd yn dechrau ar y dyddiad cyntaf a nodwyd yn yr hysbysiad dan sylw. Fel arall, gellir cymryd y cyfnod o absenoldeb mewn un bloc ar ddyddiad newydd a gyflwynir gennych cyn pen 19 diwrnod o gyflwyno'r cais gwreiddiol.

9.Diwrnodau Cadw Mewn Cyswllt

Yn ystod absenoldeb RhAR , gallwch weithio am hyd at 20 diwrnod o'r absenoldeb RhAR drwy ddiwrnodau cadw mewn cyswllt (diwrnodau CMC) heb effeithio ar unrhyw daliadau statudol. Rydym yn cydnabod y buddion o ddiwrnodau CMC ac yn eich annog i'w defnyddio, fodd bynnag, maent yn opsiynol: nid yw'n orfodaeth arnoch i'w defnyddio nhw, ac nid yw'n orfodaeth arnom i'w caniatáu.

Byddwch yn derbyn cyfradd dâl arferol am weithio diwrnodau CMC. Bydd unrhyw waith a wneir ar un diwrnod yn cyfrif fel diwrnod CMC.

Ni fydd eich hawliad am 10 diwrnod CMC Mamolaeth/Mabwysiadu yn effeithio ar eich hawliad am 20 diwrnod CMC RhAR.

10.Telerau ac Amodau yn ystod Absenoldeb RhAR

Byddwch yn parhau i dderbyn yr holl fuddion cytundebol (ac eithrio tâl) yn ystod absenoldeb RhAR.

Bydd cyfraniadau pensiwn yn parhau i gael eu prosesu yn ystod cyfnodau o absenoldeb RhAR, ond nid yn ystod cyfnodau o absenoldeb RhAR heb dâl. Bydd cyfraniadau gweithwyr yn seiliedig ar dâl gwirioneddol, a bydd cyfraniadau'r awdurdod yn seiliedig ar gyflog y gweithiwr pe na fyddai ar absenoldeb RhAR.

Bydd gwyliau blynyddol a gwyliau banc yn deillio o gyfnodau o absenoldeb RhAR pan fo'n berthnasol.

11.Dychwelyd ar ôl Absenoldeb RhAR

Mae'n rhaid i rieni sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith yn gynt ar ôl cyfnod o absenoldeb ar y cyd i rieni roi rhybudd o wyth wythnos o'r dyddiad gorffen gwreiddiol a newydd, pa un bynnag sy'n gynt.

Yn dilyn cyfnod o absenoldeb RhAR, a chyn belled â nad yw cyfanswm yr absenoldeb a gymerwyd (gan gynnwys absenoldeb mamolaeth) yn mynd y tu hwnt i 26 wythnos, gall gweithiwr ddychwelyd i'r un swydd yn seiliedig ar yr un telerau ac amodau cyflogaeth, fel pe nad ydynt wedi bod yn absennol o gwbl.

Mae gan weithiwr sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod o absenoldeb RhAR, lle mae'r cyfnod wedi mynd y tu hwnt i 26 wythnos, hawl i ddychwelyd i'r un swydd oni bai nad yw hyn yn rhesymol ymarferol. Mewn achos o'r fath, bydd y gweithiwr yn dychwelyd i swydd arall sy'n addas a phriodol dan yr amgylchiadau.

12. Hawliadau yn y Dyfodol

Os honnir bod gwybodaeth dwyllodrus wedi'i darparu, neu mae'r sefydliad wedi cael gwybodaeth gan CThEM y gwnaed hawliad twyllodrus, gall yr ysgol archwilio'r mater ymhellach yn unol â gweithdrefnau archwilio a disgyblu arferol yr ysgol, ac heb ymddwyn mewn modd disgyblaethol mewn perthynas ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a ddiffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

13. Diogelu Data

Mae'r Cyngor yn prosesu data personol a gesglir yn unol â'i Bolisi Diogelu Data. Cedwir data a gesglir data'n ddiogel, a gall unigolion ei weld a'i ddatgelu dim ond at ddibenion rheoli trefniadau absenoldeb RhAR. Ystyrir mynediad neu ddatgeliad amhriodol o ddata gweithwyr yn dor diogelwch data, a dylid ei adrodd yn unol â'r polisi diogelu data ar unwaith. Gall hefyd olygu tramgwydd ddisgyblu yr ymdrinnir â hi dan y weithdrefn ddisgyblu berthnasol.

14.Adolygu Polisi

Bydd y Polisi Absenoldeb RhAR yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gan roi ystyriaeth brofiad gweithredol neu newidiadau mewn deddfwriaeth.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): Hysbysiad Cwtogi Absenoldeb Mamolaeth	
Enw'r gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Dymunaf ddod â'm cyfnod mamolaeth a thâl mamolaeth statudol i ben er mwyn cymryd absenoldeb RhAR. Rwyf hefyd cwblhau a chynnwys: ☐ ffurflen yn darparu hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb RhAR NEU ☐ ddatganiad fod fy mhartner wedi darparu hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb RhAR i'w cyflogwr, a fy mod yn cytuno â'r cyfnod absenoldeb y bwriedir ei gymryd	
Dymunaf ddod â'm cyfnod mamolaeth i ben:	
Dymunaf ddod â'm cyfnod tâl mamolaeth statudol i ben:	
Llofnod:	
Dyddiad:	
Nodiadau Dylech gwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon ynghyd â'n ffurflen sy'n darparu hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb RhAR (os ydych yn cymryd absenoldeb ar y cyd i rieni gyfochr â'ch partner). Nid oes rhaid i chi gwblhau'r ffurflen gwtogi hon os ydych eisoes wedi darparu'r hysbysiad gofynnol i ni er mwyn dychwelyd i'r gwaith yn gynt o'ch cyfnod mamolaeth, neu rydych eisoes wedi dychwelyd i'r gwaith ar ôl dod a'ch cyfnod mamolaeth i ben yn fuan.	

Pwyllwch cyn cyflwyno'r ffurflen hon. Ar ôl ei chyflwyno, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwch ildio'ch hysbysiad i gwtogi absenoldeb mamolaeth.

Mae'n rhaid i'r dyddiad y byddwch yn dod â'ch cyfnod absenoldeb mamolaeth i ben fod:

- wyth wythnos yn dilyn y dyddiad y darparoch yr hysbysiad i ni;
- pythefnos yn dilyn lleoliad; ac
- wythnos cyn yr hyn a fyddai wedi bod yn ddiwedd eich cyfnod mamolaeth ychwanegol.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): Hysbysiad Cwtogi Absenoldeb Mabwysiadu	
Enw'r gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Dymunaf ddod â'm cyfnod o absenoldeb mabwysiadu a thâl mabwysiadu statudol i ben er mwyn cymryd absenoldeb RhAR. Rwyf hefyd cwblhau a chynnwys: ☐ ffurflen yn darparu hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb RhAR NEU ☐ ddatganiad fod fy mhartner wedi darparu hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb RhAR i'w cyflogwr, a fy mod yn cytuno â'r cyfnod absenoldeb y bwriedir ei gymryd	
Dymunaf ddod â'm habsenoldeb mabwysiadu i ben:	
Dymunaf ddod â'm cyfnod tâl mabwysiadu statudol i ben:	
Llofnod:	
Dyddiad:	
Nodiadau Dylech gwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon ynghyd â'n ffurflen sy'n darparu hysbysiad o hawliad a bwriad i gymryd absenoldeb RhAR (os ydych yn cymryd absenoldeb ar y cyd i rieni gyfochr â'ch partner) Nid oes rhaid i chi gwblhau'r ffurflen gwtogi hon os ydych eisoes wedi darparu'r hysbysiad gofynnol i ni er mwyn dychwelyd i'r gwaith yn gynt, neu rydych eisoes wedi dychwelyd i'r gwaith ar ôl dod a'ch cyfnod o absenoldeb mabwysiadu i ben yn fuan.	

Pwyllwch cyn cyflwyno'r ffurflen hon. Ar ôl ei chyflwyno, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gallwch ildio'ch hysbysiad i gwtogi absenoldeb mabwysiadu.

Mae'n rhaid i'r dyddiad y byddwch yn dod â'ch cyfnod absenoldeb mamolaeth i ben fod:

- wyth wythnos yn dilyn y dyddiad y darparoch yr hysbysiad i ni;
- pythefnos yn dilyn lleoliad; ac

wythnos cyn yr hyn a fyddai wedi bod yn ddiwedd eich cyfnod mabwysiadu ychwanegol.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): hysbysiad o hawliad a bwriad (y fam)	
Enw'r gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Hoffwn gyflwyno hysbysiad yn datgan fy mod yn hawlio ac yn bwriadu cymryd absenoldeb RhAR (a thâl RhAR os yn berthnasol), yn ogystal â'r datganiadau gofynnol gan fy mhartner a minnau.	
Adran A: manylion hawlio mamolaeth	
Dyddiad geni disgwyliedig y plentyn:	
Dyddiad geni gwirioneddol y plentyn:	
Dyddiad dechrau cyfnod mamolaeth statudol:	
Dyddiad gorffen cyfnod mamolaeth statudol:	
Cyfanswm yr wythnosau o absenoldeb mamolaeth statudol a gymerwyd hyd at y dyddiad cwtogi:	
Dyddiad dechrau tâl neu lwfans mamolaeth statudol:	
Dyddiad gorffen tâl neu lwfans mamolaeth statudol:	
Cyfanswm yr wythnosau y talwyd Tâl Mamolaeth Statudol neu MA hyd at y dyddiad cwtogi:	

Adran B: Manylion absenoldeb RhAR	
Uchafswm yr wythnosau o absenoldeb RhAR sydd gan fy mhartner a minnau ar gael yw (50 wythnos, heb gynnwys nifer yr wythnosau sydd eisoes wedi'u cymryd yn ôl y dyddiadau uchod):	
Uchafswm yr wythnosau o dâl RhAR sydd ar gael (37 wythnos heb gynnwys nifer yr wythnosau a gymerwyd yn ôl y dyddiadau uchod):	
Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol fel absenoldeb RhAR:	
Mae fy mhartner yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol fel absenoldeb RhAR:	
Rwy'n bwriadu cymryd absenoldeb RhAR ar y dyddiadau canlynol (cofiwch gynnwys y dyddiad dechrau a gorffen ar gyfer bob cyfnod rydych yn bwriadu'i gymryd):	
Cyfanswm y tâl RhAR (os yn berthnasol) sydd gan fy mhartner a minnau yw:	
Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o dâl RhAR a (os yn berthnasol):	
Mae fy mhartner yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o dâl RhAR (os yn berthnasol):	
Rwy'n bwriadu cymryd tâl RhAR ar y dyddiadau canlynol (os yn berthnasol):	

Adran C: datganiad i'w gwblhau gan y gweithiwr

Rwy'n bodloni'r gofynion cymhwystra canlynol er mwyn cymryd absenoldeb RhAR:

Mae'r pwyntiau canlynol yn berthnasol ym mhob achos lle mae gan fam hawl i gymryd absenoldeb mamolaeth:

- Rwy'n hysbysu fod gennyf hawl i gymryd absenoldeb RhAR, a'm bod yn bwriadu'i gymryd.
- Rwyf, neu mi fyddaf, wedi bod mewn cyflogaeth barhaus am 26 wythnos ar ddiwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos geni ddisgwyliedig y plentyn
- Byddaf yn parhau mewn cyflogaeth gyda'r cyflogwr hwn hyd at unrhyw gyfnod o absenoldeb RhAR rwy'n bwriadu'i gymryd
- Roedd gennyf (neu mi fydd gennyf) y prif gyfrifoldeb dros ofal y plentyn ar adeg ei eni (ynghyd â'm partner sydd wedi gwneud y datganiad isod)
- Mae gennyf hawl cymryd absenoldeb mamolaeth. Mae fy nghyfnod absenoldeb mamolaeth wedi'i gwtogi, ac mae'r wythnosau sy'n weddill bellach ar gael fel absenoldeb RhAR
- Byddaf yn hysbysu fy nghyflogwr ar unwaith os na fyddaf yn gofalu am fy mhlentyn mwyach
- Byddaf yn darparu copi o dystysgrif geni fy mhlentyn, neu ddatganiad o ddyddiad a man geni'r plentyn os nad oes tystysgrif ar gael i fy nghyflogwr os gofynnir am hynny cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn
- Byddaf yn rhoi enw a chyfeiriad cyflogwr fy mhartner i fy nghyflogwr, neu ddatganiad nad oes ganddynt gyflogwr, os bydd fy nghyflogwr yn gofyn am hyn cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn
- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y datganiad hwn yn gywir ac yn bodloni'r gofynion hysbysu ar gyfer absenoldeb RhAR

Mae'r pwyntiau canlynol yn berthnasol wrth hawlio Tâl Statudol RhAR:

- Rwy'n hysbysu fod gennyf hawl i gymryd tâl statudol RhAR, a'm bod yn bwriadu'i gymryd.
- Rwyf wedi cael (neu mi fyddaf) yn cael fy nhalu yn ôl y Terfyn Enillion Isaf yn ystod yr 8 wythnos cyn diwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn
- Mae gennyf hawl cymryd tâl mamolaeth ar y cyd yng ngoleuni genedigaeth ein plentyn. Bydd fy nghyfnod mamolaeth â thâl yn cwtogi a bydd gweddill y cyfnod ar gael fel tâl statudol RhAR.
- Byddaf yn absennol o'r gwaith am bob wythnos y byddaf yn derbyn tâl statudol RhAR, a byddaf yn derbyn absenoldeb RhAR yn ystod yr wythnosau hynny (os yn gymwys i dderbyn absenoldeb RhAR)
- Rwy'n bwriadu gofalu am fy mhlentyn yn ystod yr wythnosau y byddaf yn derbyn tâl statudol RhAR
- Byddaf yn parhau mewn gwaith â'r cyflogwr hwn hyd at ddyddiad fy nghyfnod cyntaf o dderbyn tâl statudol RhAR

- Pe byddaf yn ildio fy mhenderfyniad i gwtogi fy nghyfnod tâl mamolaeth neu lwfans mamolaeth, byddaf yn hysbysu'r unigolyn sy'n talu'r tâl statudol RhAR ar unwaith
- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y datganiad hwn yn gywir

Adran D: datganiad i'w gwblhau gan bartner y gweithiwr	
Fy enw:	
Fy nghyfeiriad:	
Fy rhif yswiriant gwladol:	
Rwy'n bodloni'r gofynion cymhwystra canlynol er mwyn galluogi'r fam i gymryd absenoldeb RhAR:	

- Rwy'n dad i'r plentyn, neu ar adeg geni'r plentyn, roeddwn (neu mi fyddaf) yn briod i'r fam, partner sifil i'r fam a/neu'n bartner i'r fam sy'n byw gyda hi â'r plentyn mewn perthynas barhaus
- Roedd gennyf (neu mi fydd gennyf) brif gyfrifoldeb dros ofal ein plentyn ar adeg yr enedigaeth (ynghyd â mam y plentyn)
- Rwyf wedi bod (neu mi fyddaf wedi bod) mewn gwaith neu'n hunangyflogedig yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban am 26 wythnos o'r 66 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn
- Rwyf wedi (neu mi fyddaf wedi) ennill cyfanswm o o leiaf £30 yn ystod y 13 o'r 66 wythnos y disgwylir geni'r plentyn
- Rwy'n cytuno â'r absenoldeb RhAR mae'r fam yn bwriadu'i gymryd, fel y nodwyd yn Adran B uchod.
- Rwy'n rhoi caniatâd i gyflogwr y fam brosesu'r wybodaeth rwyf wedi'i darparu
- Rwy'n cytuno â'r tâl statudol RhAR mae'r fam yn bwriadu'i gymryd, fel nodwyd yn Adran B uchod.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'r Awdurdod brosesu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hon
- Mae'r wybodaeth yn y datganiad hwn yn gywir

Adran E: llofnodion	
Llofnod (mam):	
Dyddiad (mam):	
Llofnod (partner):	
Dyddiad (partner):	

Nodiadau

Mae'n rhaid i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR rydych yn bwriadu'i gymryd ddigwydd o leiaf wyth wythnos ar ôl i chi ddarparu'r hysbysiad hwn. Rhaid cymryd absenoldeb RhAR mewn blociau o o leiaf un wythnos.

Bwriad yr hysbysiad hwn yw galluogi'r ysgol/awdurdod i wirio fod gennych hawl i gymryd absenoldeb RhAR, ac i ddarparu mynegiad cychwynnol i ni o'r patrwm absenoldeb rydych yn bwriadu'i gymryd. Nid yw'r hysbysiad yn orfodol, ac mae'n rhaid i chi ein rhybuddio o leiaf wyth wythnos cyn y cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR a nodwyd yn yr hysbysiad hwnnw. Gellir newid unrhyw gyfnod o absenoldeb RhAR y byddwch yn ei gynnwys yn yr hysbysiad hwn yn hwyrach ymlaen drwy ddarparu hysbysiad amrywio i ni.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): hysbysiad o hawliad a bwriad (partner – mamolaeth)	
Enw'r gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Hoffwn gyflwyno hysbysiad yn datgan fy mod yn hawlio ac yn bwriadu cymryd absenoldeb RhAR (a thâl RhAR os yn berthnasol), yn ogystal â'r datganiadau gofynnol ar fy rhan bersonol a'r fam.	
Adran A: Manylion mamolaeth y fam	
Enw'r fam:	
Dyddiad geni disgwyliedig y plentyn:	
Dyddiad geni gwirioneddol y plentyn:	
Dyddiad dechrau/dyddiad dechrau disgwyliedig absenoldeb mamolaeth y fam:	
Dyddiad gorffen/dyddiad gorffen disgwyliedig absenoldeb mamolaeth y fam:	
Dyddiad dechrau tâl/lwfans mamolaeth statudol y fam:	
Dyddiad gorffen tâl/lwfans mamolaeth statudol y fam:	
Adran B: Manylion absenoldeb RhAR	
Uchafswm yr wythnosau o absenoldeb RhAR sydd gan fy mhartner a minnau ar gael yw (50 wythnos, heb gynnwys nifer yr wythnosau sydd eisoes wedi'u cymryd yn ôl y dyddiadau uchod):	

Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau a nodwyd isod o absenoldeb RhAR:	
Mae'r fam yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o absenoldeb RhAR:	
Rwy'n bwriadu cymryd absenoldeb RhAR ar y dyddiadau canlynol (cofiwch gynnwys y dyddiad dechrau a gorffen ar gyfer bob cyfnod rydych yn bwriadu'i gymryd):	
Uchafswm yr wythnosau o absenoldeb RhAR sydd ar gael, os yn berthnasol (37 wythnos heb gynnwys nifer yr wythnosau a gymerwyd yn ôl y dyddiadau uchod):	
Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol fel absenoldeb RhAR (os yn berthnasol):	
Mae'r fam yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o dâl RhAR (os yn berthnasol):	
Rwy'n bwriadu cymryd tâl RhAR ar y dyddiadau canlynol (os yn berthnasol):	
Adran C: datganiad i'w gwblhau gan y gweithiwr	
Rwy'n datgan [fy mod/y byddaf] yn bodloni'r gofynion cymhwystra canlynol er mwyn cymryd absenoldeb RhAR:	
Mae [gennyf/bydd gennyf] 26 wythnos o gyflogaeth barhaus yn gorffen gyda'r 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir genedigaeth y plentyn, ac erbyn yr wythnos cyn unrhyw absenoldeb RhAR y byddaf yn ei gymryd, byddaf wedi bod mewn cyflogaeth barhaus gyda'r sefydliad.	

Ar ddyddiad genedigaeth y plentyn, byddaf yn bennaf gyfrifol am ofal y plentyn, oni bai am y fam	
Byddaf yn cydymffurfio â gofynion tystiolaeth a hysbysu absenoldeb RhAR y sefydliad	
Mae'r wybodaeth rwy'n ei darparu yn gywir	
Rwy'n dad i'r plentyn, neu rwy'n briod â, yn bartner sifil i, neu'n bartner y fam	
Byddaf yn hysbysu'r sefydliad ar unwaith pe byddaf yn methu a gofalu am y plentyn, neu os bydd mam y plentyn yn fy hysbysu ei bod wedi ildio'r cais ar gyfer cyfnod mamolaeth neu gyfnod o dâl	
Adran D: datganiad i'w gwblhau gan y fam	
Fy enw:	
Fy nghyfeiriad:	
Fy rhif yswiriant gwladol yw:	
Rwy'n/byddaf yn bodloni'r gofynion cymhwystra er mwyn galluogi fy mhartner i gymryd absenoldeb RhAR:	
Rwyf wedi bod mewn gwaith, neu wedi bod yn hunangyflogedig, yn ystod isafswm o 26 wythnos o'r 66 wythnos a oedd yn dilyn yr wythnos berthnasol	
Mae fy enillion wythnosol cyffredinol o leiaf £30 ar gyfer unrhyw 13 wythnos o'r 66 wythnos	
Ar ddyddiad genedigaeth y plentyn, byddaf yn bennaf gyfrifol am ofal y plentyn, oni bai am fy mhartner	

Mae gennyf hawl cymryd absenoldeb mamolaeth statudol, tâl mamolaeth statudol neu lwfans mamolaeth ar gyfer y plentyn	
Rwyf [wedi cwtogi fy absenoldeb mamolaeth/dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd fy nghyfnod absenoldeb mamolaeth statudol]	
Rwy'n cytuno â'r absenoldeb RhAR mae fy mhartner yn bwriadu'i gymryd	
Byddaf yn hysbysu fy mhartner ar unwaith os na fyddaf yn bodloni'r gofynion i gwtogi fy absenoldeb mamolaeth bellach (a thâl, os yn berthnasol)	
Rwy'n rhoi caniatâd i'ch sefydliad brosesu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hon	
Adran E: Llofnodion	
Llofnod (partner):	
Dyddiad (partner):	
Llofnod (mam):	
Dyddiad (mam):	

Nodiadau:

Mae'n rhaid i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR rydych yn bwriadu'i gymryd ddigwydd o leiaf wyth wythnos ar ôl i chi ddarparu'r hysbysiad hwn. Rhaid cymryd absenoldeb RhAR mewn blociau o o leiaf un wythnos.

Bwriad yr hysbysiad hwn yw galluogi'r ysgol/awdurdod i wirio fod gennych hawl i gymryd absenoldeb RhAR, ac i ddarparu mynegiad cychwynnol i ni o'r patrwm absenoldeb rydych yn bwriadu'i gymryd. Nid yw'r hysbysiad yn orfodol, ac mae'n rhaid i chi ein rhybuddio o leiaf wyth wythnos cyn y cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR a nodwyd yn yr hysbysiad hwnnw. Gellir newid unrhyw gyfnod o absenoldeb RhAR y byddwch yn ei gynnwys yn yr hysbysiad hwn yn hwyrach ymlaen drwy ddarparu hysbysiad amrywio i ni.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): hysbysiad o hawliad a bwriad (prif fabwysiadwr)	
Enw'r gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Hoffwn gyflwyno hysbysiad yn datgan fy mod yn hawlio ac yn bwriadu cymryd absenoldeb RhAR (a thâl RhAR os yn berthnasol).	
Adran A: Manylion hawlio mabwysiadwr:	
Dyddiad y disgwylir lleoli'r plentyn:	
Dyddiad gwirioneddol lleoli'r plentyn:	
Dyddiad dechrau cyfnod absenoldeb mabwysiadu statudol:	
Dyddiad gorffen cyfnod absenoldeb mabwysiadu statudol:	
Cyfanswm yr wythnosau o absenoldeb mabwysiadu statudol a gymerwyd hyd at y dyddiad cwtogi:	
Dyddiad dechrau tâl neu lwfans mabwysiadu statudol:	
Dyddiad gorffen tâl neu lwfans mabwysiadu statudol:	
Cyfanswm yr wythnosau y talwyd Tâl Mabwysiadu Statudol neu lwfans mabwysiadu hyd at y dyddiad cwtogi:	

Adran B: Manylion absenoldeb RhAR	
Uchafswm yr wythnosau o absenoldeb RhAR sydd gan fy mhartner a minnau ar gael yw (50 wythnos, heb gynnwys nifer yr wythnosau sydd eisoes wedi'u cymryd yn ôl y dyddiadau uchod):	
Uchafswm yr wythnosau o dâl RhAR sydd ar gael (37 wythnos heb gynnwys nifer yr wythnosau a gymerwyd yn ôl y dyddiadau uchod):	
Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol fel absenoldeb RhAR:	
Mae fy mhartner yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol fel absenoldeb RhAR:	
Rwy'n bwriadu cymryd absenoldeb RhAR ar y dyddiadau canlynol (cofiwch gynnwys y dyddiad dechrau a gorffen ar gyfer bob cyfnod rydych yn bwriadu'i gymryd):	
Cyfanswm y tâl RhAR (os yn berthnasol) sydd gan fy mhartner a minnau yw:	
Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o dâl RhAR a (os yn berthnasol):	
Mae fy mhartner yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o dâl RhAR a (os yn berthnasol):	
Rwy'n bwriadu cymryd tâl RhAR ar y dyddiadau canlynol (os yn berthnasol):	

Adran C: datganiad i'w gwblhau gan y gweithiwr

Rwy'n bodloni'r gofynion cymhwystra canlynol er mwyn cymryd absenoldeb RhAR:

Mae'r pwyntiau canlynol yn berthnasol ym mhob achos lle mae gan y prif fabwysiadwr hawl i gymryd absenoldeb mabwysiadu:

- Rwy'n hysbysu fod gennyf hawl i gymryd absenoldeb RhAR, a'm bod yn bwriadu'i gymryd.
- Rwyf, neu mi fyddaf, wedi bod mewn cyflogaeth barhaus am 26 wythnos ar ddiwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos y disgwylir paru'r plentyn (wythnos berthnasol)
- Byddaf yn parhau mewn cyflogaeth gyda'r cyflogwr hwn hyd at unrhyw gyfnod o absenoldeb RhAR rwy'n bwriadu'i gymryd
- Roedd gennyf (neu mi fydd gennyf) y prif gyfrifoldeb dros ofal y plentyn ar yr adeg y bydd yn cael ei leoli (ynghyd â'm partner sydd wedi gwneud y datganiad isod)
- Mae gennyf hawl cymryd absenoldeb mabwysiadu. Mae fy nghyfnod absenoldeb mabwysiadu wedi'i gwtogi, ac mae'r wythnosau sy'n weddill bellach ar gael fel absenoldeb RhAR
- Byddaf yn hysbysu fy nghyflogwr ar unwaith os na fyddaf yn gofalu am fy mhlentyn mwyach
- Byddaf yn darparu copi o dystysgrif paru fy mhlentyn i fy nghyflogwr os gofynnir amdani cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn
- Byddaf yn rhoi enw a chyfeiriad cyflogwr fy mhartner i fy nghyflogwr, neu ddatganiad nad oes ganddynt gyflogwr, os bydd fy nghyflogwr yn gofyn am hyn cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwn
- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y datganiad hwn yn gywir ac yn bodloni'r gofynion hysbysu ar gyfer absenoldeb RhAR

Mae'r pwyntiau canlynol yn berthnasol wrth hawlio Tâl Statudol RhAR:

- Rwy'n hysbysu fod gennyf hawl i gymryd tâl statudol RhAR, a'm bod yn bwriadu'i gymryd.
- Rwyf wedi cael (neu mi fyddaf) yn cael fy nhalu yn ôl y Terfyn Enillion Isaf yn ystod yr 8 wythnos cyn diwedd y 15fed wythnos cyn yr wythnos berthnasol
- Mae gennyf hawl cymryd absenoldeb RhAR yng ngoleuni genedigaeth ein plentyn. Bydd fy nghyfnod mabwysiadu â thâl yn cwtogi a bydd gweddill y cyfnod ar gael fel tâl statudol RhAR.
- Byddaf yn absennol o'r gwaith am bob wythnos y byddaf yn derbyn tâl statudol RhAR, a byddaf yn derbyn absenoldeb RhAR yn ystod yr wythnosau hynny (os yn gymwys i dderbyn absenoldeb RhAR)
- Rwy'n bwriadu gofalu am fy mhlentyn yn ystod yr wythnosau y byddaf yn derbyn tâl statudol RhAR
- Byddaf yn parhau mewn gwaith â'r cyflogwr hwn hyd at ddyddiad fy nghyfnod cyntaf o dderbyn tâl statudol RhAR

- Pe byddaf yn ildio fy mhenderfyniad i gwtogi fy absenoldeb RhAR neu lwfans mabwysiadu, byddaf yn hysbysu'r unigolyn sy'n talu'r tâl statudol RhAR ar unwaith
- Mae'r wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y datganiad hwn yn gywir

Adran D: datganiad i'w gwblhau gan bartner y gweithiwr	
Fy enw:	
Fy nghyfeiriad:	
Fy rhif yswiriant gwladol:	
Rwy'n bodloni'r gofynion cymhwystra canlynol er mwyn galluogi'r prif fabwysiadwr i gymryd RhAR:	

- Rydw i'n ail fabwysiadwr, neu ar adeg y lleoliad, roeddwn (neu mi fyddaf) yn briod i'r prif fabwysiadwr, partner sifil y prif fabwysiadwr a/neu bartner y prif fabwysiadwr sy'n byw gyda nhw â'r plentyn mewn perthynas barhaus
- Roedd gennyf (neu mi fydd gennyf) brif gyfrifoldeb dros ofal ein plentyn ar adeg y lleoliad (ynghyd â'r prif fabwysiadwr)
- Rwyf wedi bod (neu mi fyddaf wedi bod) mewn gwaith neu'n hunangyflogedig yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban am 26 wythnos o'r 66 wythnos cyn yr wythnos berthnasol
- Rwyf wedi (neu mi fyddaf wedi) ennill cyfanswm o o leiaf £30 yn ystod y 13 o'r 66 wythnos cyn yr wythnos berthnasol
- Rwy'n cytuno â'r absenoldeb RhAR mae'r prif fabwysiadwr yn bwriadu'i gymryd, fel y nodwyd yn Adran B uchod.
- Rwy'n rhoi caniatâd i gyflogwr y prif fabwysiadwr brosesu'r wybodaeth rwyf wedi'i darparu
- Rwy'n cytuno â'r tâl statudol ar y cyd i rieni mae'r prif fabwysiadwr yn bwriadu'i gymryd, fel nodwyd yn Adran B uchod.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'r Awdurdod brosesu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hon
- Mae'r wybodaeth yn y datganiad hwn yn gywir

Adran E: llofnodion	
Llofnod (prif fabwysiadwr):	
Dyddiad (prif fabwysiadwr):	
Llofnod (partner):	
Dyddiad (partner):	

Nodiadau

Mae'n rhaid i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR rydych yn bwriadu'i gymryd ddigwydd o leiaf wyth wythnos ar ôl i chi ddarparu'r hysbysiad hwn. Rhaid cymryd absenoldeb RhAR mewn blociau o o leiaf un wythnos.

Bwriad yr hysbysiad hwn yw galluogi'r ysgol/awdurdod i wirio fod gennych hawl i gymryd absenoldeb RhAR, ac i ddarparu mynegiad cychwynnol i ni o'r patrwm absenoldeb rydych yn bwriadu'i gymryd. Nid yw'r hysbysiad yn orfodol, ac mae'n rhaid i chi ein rhybuddio o leiaf wyth wythnos cyn y cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR a nodwyd yn yr hysbysiad hwnnw. Gellir newid unrhyw gyfnod o absenoldeb RhAR y byddwch yn ei gynnwys yn yr hysbysiad hwn yn hwyrach ymlaen drwy ddarparu hysbysiad amrywio i ni.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): Hysbysiad o Hawliad a Bwriad (partner – mabwysiadu)	
Enw'r gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Hoffwn gyflwyno hysbysiad yn datgan fy mod yn hawlio ac yn bwriadu cymryd absenoldeb RhAR (a thâl RhAR os yn berthnasol), yn ogystal â'r datganiadau gofynnol ar fy rhan bersonol a'r prif fabwysiadwr.	
Adran A: Manylion mabwysiadu'r prif fabwysiadwr	
Enw'r prif fabwysiadwr:	
Dyddiad y disgwylir lleoli'r plentyn:	
Dyddiad gwirioneddol lleoli'r plentyn:	
Dyddiad dechrau/dyddiad dechrau disgwyliedig absenoldeb mabwysiadu'r prif fabwysiadwr:	
Dyddiad gorffen/dyddiad gorffen disgwyliedig absenoldeb mabwysiadu'r prif fabwysiadwr:	
Dyddiad dechrau tâl/lwfans mabwysiadu'r prif fabwysiadwr:	
Dyddiad gorffen tâl/lwfans mabwysiadu'r prif fabwysiadwr:	
Adran B: Manylion absenoldeb RhAR	
Uchafswm yr wythnosau o absenoldeb RhAR sydd gennyf, a'r prif fabwysiadwr, ar gael yw (50 wythnos, heb gynnwys nifer yr wythnosau sydd eisoes wedi'u cymryd yn ôl y dyddiadau uchod):	

Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau a nodwyd isod o absenoldeb RhAR:	
Mae'r prif fabwysiadwr yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o absenoldeb RhAR:	
Rwy'n bwriadu cymryd absenoldeb RhAR ar y dyddiadau canlynol (cofiwch gynnwys y dyddiad dechrau a gorffen ar gyfer bob cyfnod rydych yn bwriadu'i gymryd):	
Uchafswm yr wythnosau o absenoldeb RhAR sydd ar gael, os yn berthnasol (37 wythnos heb gynnwys nifer yr wythnosau a gymerwyd yn ôl y dyddiadau uchod):	
Rwy'n bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol fel absenoldeb RhAR (os yn berthnasol):	
Mae'r prif fabwysiadwr yn bwriadu cymryd yr wythnosau canlynol o dâl RhAR (os yn berthnasol):	
Rwy'n bwriadu cymryd tâl RhAR ar y dyddiadau canlynol (os yn berthnasol):	
Adran C: datganiad i'w gwblhau gan y gweithiwr	
Rwy'n datgan [fy mod/y byddaf] yn bodloni'r gofynion cymhwystra canlynol er mwyn cymryd absenoldeb RhAR:	
Mae [gennyf/bydd gennyf] 26 wythnos o gyflogaeth barhaus yn gorffen gyda'r 15fed wythnos cyn yr hysbyswyd y prif fabwysiadwr ei fod wedi'i baru (wythnos berthnasol) ac erbyn yr wythnos cyn unrhyw absenoldeb RhAR y byddaf yn ei gymryd, byddaf wedi bod mewn cyflogaeth barhaus gyda'r sefydliad.	

Ar y dyddiad y lleoli'r y plentyn, fi fy hun fydd â'r brif gyfrifoldeb dros ofalu am y plentyn, oni bai am y prif fabwysiadwr.	
Byddaf yn cydymffurfio â gofynion hysbysu a gofynion tystiolaeth y sefydliad ar gyfer absenoldeb RhAR.	
Mae'r wybodaeth rwyf wedi'i darparu yn gywir	
Rwy'n ail fabwysiadwr y plentyn, neu rwy'n briod â, yn bartner sifil i, neu'n bartner y prif fabwysiadwr	
Byddaf yn hysbysu'r sefydliad ar unwaith pe byddaf yn methu a gofalu am y plentyn, neu os bydd prif fabwysiadwr y plentyn yn fy hysbysu eu bod wedi ildio'u cais i gwtogi absenoldeb mabwysiadu neu gyfnod tâl mabwysiadu	
Adran D: datganiad i'w gwblhau gan y prif fabwysiadwr	
Fy enw:	
Fy nghyfeiriad:	
Fy rhif yswiriant gwladol yw:	
Rwy'n/byddaf yn bodloni'r gofynion cymhwystra er mwyn galluogi fy mhartner i gymryd absenoldeb RhAR:	
Rwyf wedi bod mewn gwaith, neu wedi bod yn hunangyflogedig, yn ystod isafswm o 26 wythnos o'r 66 wythnos a oedd yn dilyn yr wythnos berthnasol	
Mae fy enillion wythnosol cyffredinol o leiaf £30 ar gyfer unrhyw 13 wythnos o'r 66 wythnos	

Ar ddyddiad lleoli'r plentyn, byddaf yn bennaf gyfrifol am ofal y plentyn, oni bai am fy mhartner	
Mae gennyf hawl cymryd absenoldeb mabwysiadu statudol, tâl mabwysiadu statudol neu lwfans mabwysiadu ar gyfer y plentyn	
Rwyf [wedi cwtogi fy absenoldeb mabwysiadu/dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd fy nghyfnod absenoldeb mabwysiadu statudol]	
Rwy'n cytuno â'r absenoldeb RhAR mae fy mhartner yn bwriadu'i gymryd	
Byddaf yn hysbysu fy mhartner ar unwaith os na fyddaf yn bodloni'r gofynion i gwtogi fy absenoldeb mabwysiadu bellach (a thâl, os yn berthnasol)	
Rwy'n rhoi caniatâd i'ch sefydliad brosesu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hon	
Adran E: Llofnodion	
Llofnod (partner):	
Dyddiad (partner):	
Llofnod (prif fabwysiadwr):	
Dyddiad (prif fabwysiadwr):	

Nodiadau:

Mae'n rhaid i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR rydych yn bwriadu'i gymryd ddigwydd o leiaf wyth wythnos ar ôl i chi ddarparu'r hysbysiad hwn. Rhaid cymryd absenoldeb RhAR mewn blociau o o leiaf un wythnos.

Bwriad yr hysbysiad hwn yw galluogi'r ysgol/awdurdod i wirio fod gennych hawl i gymryd absenoldeb RhAR, ac i ddarparu mynegiad cychwynnol i ni o'r patrwm absenoldeb rydych

yn bwriadu'i gymryd. Nid yw'r hysbysiad yn orfodol, ac mae'n rhaid i chi ein rhybuddio o leiaf wyth wythnos cyn y cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR a nodwyd yn yr hysbysiad hwnnw. Gellir newid unrhyw gyfnod o absenoldeb RhAR y byddwch yn ei gynnwys yn yr hysbysiad hwn yn hwyrach ymlaen drwy ddarparu hysbysiad amrywio i ni.

Absenoldeb Rhiant a Rennir (RhAR): hysbysiad cyfnod o absenoldeb/ hysbysiad i amrywio cyfnod o absenoldeb	
Enw gweithiwr:	
Teitl swydd:	
Rhif cyflog:	
Dymunaf gymryd y cyfnod(au) canlynol fel absenoldeb RhAR.	
Adran A: hysbysiad cyfnod o absenoldeb	
Rwy'n bwriadu cymryd absenoldeb RhAR ar y dyddiadau canlynol (nodwch ddyddiad dechrau a gorffen bob cyfnod o absenoldeb rydych yn bwriadu'i gymryd):	
Adran B: cais i amrywio dyddiadau cais am absenoldeb/tâl RhAR a wnaed eisoes.	
Cyfnodau o absenoldeb RhAR a gymeradwywyd eisoes (gan gynnwys dyddiad dechrau a gorffen):	
Addasu cyfnodau o absenoldeb RhAR y gwneir cais amdanynt (gan gynnwys dyddiad dechrau a gorffen y cyfnodau rydych yn gwneud cais amdanynt):	
Llofnod:	
Dyddiad:	
Nodiadau Gallwch wneud cais am absenoldeb RhAR mewn un bloc parhaus (mewn achos o'r fath, rhaid i ni dderbyn y cais cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion	

cymhwystra a hysbysu), neu fel nifer o flociau bylchog o absenoldeb (mewn achos o'r fath, byddwch angen ein caniatâd). Fel rheol, gall rhiant wneud uchafswm o dri chais am absenoldeb fesul beichiogrwydd/mabwysiadu.

Mae'n rhaid i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyntaf o absenoldeb RhAR rydych yn dymuno ei gymryd ddechrau o leiaf wyth wythnos ar ôl i chi ddarparu'r hysbysiad hwn. Rhaid cymryd absenoldeb RhAR mewn blociau o o leiaf un wythnos.

Bwrid yr hysbysiad hwn yw cadarnhau i'r ysgol/awdurdod y cyfnod o absenoldeb RhAR rydych yn bwriadu'i gymryd. Gofynnir eich bod eisoes wedi cyflwyno hysbysiad o hawliad a bwriad cyn defnyddio'r ffurflen hon.

Rydym yn cydnabod y gall trefniadau gweithwyr newid. Fodd bynnag, argymhellir eich bod chi a'ch partner yn meddwl yn ofalus am eich absenoldeb RhAR cyn cyflwyno'r ffurflen hon, oherwydd ni cheir llawer o gyfleoedd i newid ceisiadau am absenoldeb ar y cyd i rieni. Oni bai am amgylchiadau eithriadol, cewch dri chyfle i gyflwyno hysbysiad cyfnod o absenoldeb neu hysbysiad eich bod wedi newid eich meddwl ynghylch dyddiadau absenoldeb RhAR.

Mae'n rhaid i chi a'ch partner gymryd unrhyw absenoldeb RhAR cyn pen 52 wythnos o enedigaeth eich plentyn.